

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Uned Famolaeth, Ysbyty Tywysoges
Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 18 - 20 Awst 2025

Dyddiad cyhoeddi: 4 Rhagfyr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	11
	• Ansawdd Profiad y Claf	11
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	18
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	25
4.	Y camau nesaf	32
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	33
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	34
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	35

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg rhwng 18 ac 20 Awst 2025. Adolygydd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned frysbenneu mamolaeth
- Ward esgor
- Ward cynenedigol / ward ôl-enedigol
- Ardal dibyniaeth fawr
- Theatrau obstetrig.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd.

Caewyd yr uned famolaeth yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr, a oedd yn gweithredu o dan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, dros dro er mwyn cynnal gwaith atgyweirio hanfodol ddydd Llun, 2 Medi 2024, a bu'n rhaid cau'r uned famolaeth a'r uned newyddenedigol yn Ysbyty Tywysoges Cymru er mwyn cwblhau gwaith ystadau brys. Ailagorodd yr uned ar gyfer cleifion a staff ym mis Chwefror 2025. Cafodd yr achos hwn o gau'r uned effaith sylweddol ar y staff a'r cleifion. Anfonwyd y staff mamolaeth i weithio yn y Byrddau Iechyd cyfagos ar fyr rybudd a bu'n rhaid i'r cleifion deithio i wasanaethau mamolaeth eraill gan fod yr uned wedi'i chau dros dro.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd menywod i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 41 o holiaduron gan bobl a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth o fewn y chwe mis diwethaf a chwblhawyd 54 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, dywedodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaethau mamolaeth eu bod wedi cael profiad cadarnhaol, gyda nifer ohonynt yn canmol y staff am eu dull agos atoch a'u parodrwydd i helpu. Yn eu sylwadau, dywedodd y defnyddwyr hyn eu bod wedi gwerthfawrogi'r cymorth a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y bydwagedd, a gwelodd y tîm arolygu y staff yn rhyngweithio'n barchus ac yn sensitif â menywod a'u teuluoedd.

Roedd yr uned yn canolbwyntio'n fawr ar hybu iechyd, gyda gwybodaeth eang ar gael ar-lein ac yn yr uned. Roedd hyn yn cynnwys adnoddau ar fwydo ar y fron, rhoi'r gorau i smygu a dewisiadau o ran ffyrdd iach o fyw. Roedd y Banc Data Mamolaeth ar Gynhwysiant Digidol yn enghraifft o fenter ganmoladwy, lle roedd cardiau SIM a phecynnau data yn cael eu rhoi i fenywod beichiog a oedd yn wynebu heriau o ran mynediad at ddyfeisiau digidol.

Ar y cyfan, roedd defnyddwyr y gwasanaethau mamolaeth yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a dangosodd y staff ymwybyddiaeth dda o ddewis y cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r menywod yn teimlo bod eu dewisiadau geni wedi cael eu parchu, ond nododd rhywfaint o'r adborth fod sgiliau cyfathrebu gwael ymhlith y meddygon.

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl yn fodlon ar y gofal a ddarparwyd, ond nododd rhai nad oeddent wedi cael meddyginiaeth lleddfu poen ar ôl rhoi geni ar amser. Roedd aelodau o'r staff yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o amser i ateb yr holl ofynion.

Ymdriniwyd â gwasanaethau teg, ac roedd angen gwella'r cynnig rhagweithiol ar gyfer cael gofal yn Gymraeg a gosod arwyddion gwell yn yr uned. Ni roddodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaethau wybod am unrhyw achos o wahaniaethu, ond nodwyd enghreifftiau unigryw o achosion o'r fath, sy'n nodi bod angen rhoi polisïau cydraddoldeb ar waith yn ymarferol ac yn gyson.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu adborth am brosesau cyfathrebu a mynd i'r afael ag unrhyw faterion
- Sicrhau bod meddyginiaethau lleddfu poen ar gael yn ystod y cyfnod ôl-enedigol
- Gwella'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a sicrhau y gellir adnabod yr aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn hawdd

- Gwella'r arwyddion i'r adran
- Sicrhau y rhoddir polisïau cydraddoldeb a hyfforddiant ar waith yn ymarferol ac yn gyson er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r un person sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn wynebu unrhyw wahaniaethu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Sicrhau bod gwybodaeth ac adnoddau digidol ar gael ar gyfer pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- Darparu gwybodaeth iechyd
- Staff caredig ac yn barod i helpu, gyda chymorth cryf ar gyfer gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn
- Cyfleusterau profedigaeth ymroddedig a gofal profedigaeth sensitif.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau, gan sicrhau bod gofal diogel a chlinigol effeithiol ar gael. Roedd cofnodion defnyddwyr y gwasanaeth o safon uchel, ac roedd y gwaith cynllunio gofal dyddiol yn hybu diogelwch y cleifion. Gwnaethom arsylwi ar y cyfarfodydd trosglwyddo a oedd yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd, a gwnaethpwyd gwelliannau i'r ddogfennaeth ar unwaith yn dilyn adborth.

Roedd yr uned yn gweithio tuag at roi System Brysbennu Obstetrig Symptom-benodol Birmingham (BSOTS) ar waith yn llawn er mwyn cynnal asesiadau mamolaeth, ond nid oedd rhai meysydd yn cydymffurfio'n llawn. Roedd materion yn cynnwys diffyg llinell ffôn ddynodedig er mwyn i fydwragedd roi cyngor clinigol a hyfforddiant BSOTS annigonol ar gyfer y staff. Cynghorwyd y bwrdd iechyd i adolygu'r gweithgarwch, lefelau staffio, lleoliadau, hyfforddiant a phrosesau sy'n gysylltiedig â'r Uned Asesu Gofal Mamolaeth er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

Nodwyd bod y cerdyn diogelwch arloesol ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth yn enghraifft o arfer da, ac yn grymuso menywod i gymryd camau i sicrhau eu diogelwch eu hunain.

Roedd y mesurau atal a rheoli heintiau yn dda ar y cyfan, ond roedd ardaloedd o'r uned yn ymddangos yn hen ac roedd angen eu diweddaru. Roedd mesurau diogelwch ar waith i amddiffyn teuluoedd a babanod, ond roedd angen adolygu a diweddaru'r mesurau yn yr ardal Dibyniaeth Fawr a oedd wedi'i rhoi ar waith yn ddiweddar. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu yn uchel ar gyfer hyfforddiant lefel dau, ond roedd angen gwella'r gydymffurfiaeth â hyfforddiant

lefel tri. Roedd prinder cyfarpar a materion ystadau yn effeithio ar y ddarpariaeth gofal ac roedd angen eu datrys mewn modd amserol.

Nodwyd heriau a oedd yn gysylltiedig â dyfeisiau a chyfarpar meddygol, gan gynnwys cyfarpar a oedd wedi torri. Cynghorwyd y bwrdd iechyd i fynd i'r afael â'r materion hyn a sicrhau eu bod yn cael eu datrys mewn modd amserol. Adolygwyd y prosesau rheoli meddyginiaethau, a chynghorwyd y bwrdd iechyd i sicrhau y caiff cyffuriau a reolir eu storio ar eu pen eu hunain ac y dylid storio cyffuriau nas rheolir ar wahân.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi BSOTS ar waith yn llawn, gan gynnwys llinellau ffôn dynodedig i roi cyngor, hyfforddiant staff cynhwysfawr, a phrosesau brysbennu cyson
- Sicrhau y caiff cyfarpar ei atgyweirio a materion ystadau eu datrys mewn modd amserol
- Adolygu unrhyw bryderon am ystadau'r theatr nad ydynt wedi'u datrys, lefelau staffio'r theatr a'r cymysgedd sgiliau a mynd i'r afael â nhw
- Adolygu a gwella'r broses ar gyfer storio meddyginiaethau'r cleifion yn ddiogel

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cofnodion mamolaeth o safon dda a chyson
- Archwiliadau a phrosesau rheoli risg
- Darparu gwybodaeth arloesol am ddiogelwch cleifion (Cerdyn diogelwch).

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cymysg gan y staff, gyda nifer yn nodi eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu darparu i gleifion, a dywedwyd y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir ar eu cyfer nhw eu hunain, neu eu teulu. Fodd bynnag, byddai nifer llai o'r staff yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio ynddo, a chodwyd pryderon am brinder staff, dulliau rheoli a'r morâl. Tynnodd sylwadau'r staff sylw at faterion fel microreoli, diffyg cyfraniad gan y staff, a diffyg tegwch a chymorth canfyddedig wrth reoli digwyddiadau. Er gwaethaf yr heriau hyn, disgrifiodd aelodau o'r staff ymdeimlad cryf o waith tîm a balchder yn eu gwaith.

Roedd y strwythur rheoli yn glir, a gwnaed ymdrechion i wella morâl a phrosesau cyfathrebu ar ôl i'r weithred o gau'r uned dros dro darfu'n sylweddol ar hyn. Roedd y mentrau yn cynnwys ymarferion gwrando, digwyddiadau llesiant, a hyfforddiant arweinyddiaeth tosturiol. Fodd bynnag, roedd yr adborth a gafwyd yn yr holiadur

staff yn nodi nad oedd y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol o hyd. Roedd gwaith tîm amlddisgyblaethol cadarnhaol ar waith, ac roedd y polisïau ar gael drwy godau QR ar bosteri. Roedd systemau llywodraethu ar waith, ond roedd anghysondebau o ran sut y rhoddwyd gwybod am ddigwyddiadau a'r cymorth a ddarparwyd i'r staff. Roedd y staff yn teimlo bod angen gwella'r diwylliant dim bai a sicrhau y caiff gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau eu rhannu'n effeithiol.

Er bod rotas y staff yn cydymffurfio â gofynion Birth Rate Plus, a bod bydwagedd dan hyfforddiant yn cwblhau hyfforddiant ar ôl cymhwyso, roedd nifer o'r staff yn teimlo bod y lefelau staffio isel yn broblem, a'u bod yn arwain at flinder eithafol a morâl isel. Roedd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol yn uchel, ac roedd cynlluniau ar waith i wella cyfraddau Arfarniad Perfformiad ac Adolygiad Datblygiad. Cafwyd adborth cymysg ar y rhaglen sefydlu, ac roedd angen sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn cael ei sefydlu.

Roedd mentrau llesiant yn cael eu croesawu, ac anogwyd y staff i gymryd rhan mewn prosiectau gwella ansawdd. Roedd cyfrinachedd cleifion a llywodraethu gwybodaeth yn cael eu cynnal, ac roedd y dangosfwrdd mamolaeth digidol yn gynhwysfawr.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu themâu sy'n codi mewn adborth gan staff a gweithredu arnynt a rhoi camau gweithredu ar waith i wella boddhad a morâl y staff a'u monitro
- Adolygu, gwerthuso a gwella trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff
- Sicrhau y caiff prosesau ymchwilio sefydledig eu rhoi ar waith yn gyson pan fo angen
- Sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith i rannu'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau
- Adolygu a blaenoriaethu cynllun er mwyn mynd i'r afael â bylchau o ran Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd i roi cymorth i'r rhai sydd wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn uchel
- Roedd prosesau llywodraethu gwybodaeth ar waith
- Prosesau llywodraethu ac adrodd sefydledig
- Codau QR ar gyfer polisïau a gweithdrefnau.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Ar y cyfan, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod wedi cael profiad cadarnhaol, gan ddisgrifio'r gwasanaeth fel gwasanaeth 'da iawn' (27/40) neu 'dda' (6/40).

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Ni allem fod wedi cael profiad geni gwell. Roedd pob aelod o'r staff, gan gynnwys y bydwagedd dan hyfforddiant yn hawdd mynd atynt, yn llawn cydymdeimlad ac yn barod i helpu. Gwnaethant wrando arnom, ateb unrhyw gwestiynau a oedd gennym a pharchu ein dewisiadau drwy gydol yr enedigaeth. Gwnaethant ddarparu gwybodaeth i ni yn ystod yr enedigaeth fel pa gam roeddem arno a'r hyn a fyddai'n digwydd nesaf am na chafodd ein hapwyntiad i gynllunio'r geni ei gynnal gan ein bod wedi rhoi genedigaeth yn gynnar. Ni allaf ddiolch digon i'n bydwagedd - roedden nhw'n wirioneddol ffantastig ac yn glod i'r ysbyty.”

“Gwasanaethau arbennig. Mae'r bydwagedd a'r meddygon wedi cymryd amser i wrando arnaf.”

“Mae angen gwella'r gwasanaethau o ran cael mwy o staff ac mae angen iddynt gyfathrebu â'i gilydd yn fwy.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn yr uned a'i bod ar gael ar-lein i fenywod a'u teuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys posterî â chodau QR lle gallai menywod ddarllen y wybodaeth hybu iechyd ddiweddaraf yn eu dewis iaith. Roedd y wybodaeth yn cynnwys bwydo ar y fron a diogelwch wrth i fabi gysgu. Roedd hysbysebion i'w gweld yn yr uned i ddangos pwysigrwydd arferion golchi dwylo effeithiol er mwyn atal a rheoli heintiau. Roedd amrywiaeth eang o daflenni hybu iechyd ar gael yn y clinig cynenedigol. Roedd y taflenni yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, rheoli pwysau a gwybodaeth hybu iechyd arall.

Roedd gan y bwrdd iechyd bresenoldeb cryf ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol a dywedodd arweinwyr yr uned wrthym eu bod yn cael eu defnyddio i ymgysylltu â menywod sy'n defnyddio'r gwasanaethau mamolaeth. Roedd y wybodaeth a ddarperir ar-lein gan y bwrdd iechyd yn gynhwysfawr. Roedd y wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth hybu iechyd manwl a oedd yn hysbysu menywod a theuluoedd am sut i wneud dewisiadau byw yn iach cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd yn ogystal â gwybodaeth gymorth fanwl pe baent yn dymuno ymgysylltu ymhellach â gwasanaethau hybu iechyd. Roedd y wybodaeth hon ar gael mewn amrywiaeth eang o ieithoedd.

Mae prosiect y bwrdd iechyd cyfan sydd wedi ennill gwobr ac wedi'i ddylunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth yn gallu cysylltu'n ddigidol yn barhaus yn enghraifft o fenter effeithiol. Mae'r Banc Data Mamolaeth ar Gynhwysiant Digidol yn ceisio lliniaru achosion lle caiff defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth eu heithrio'n ddigidol, gan gydnabod bod mynediad cyfyngedig at ddyfeisiau digidol yn benderfynydd allweddol o anghydraddoldeb iechyd. Mae'r rhaglen hon yn helpu menywod beichiog sy'n wynebu heriau o ran mynediad at ddyfeisiau digidol drwy ddarparu cardiau SIM a phecynnau data er mwyn hwyluso cysylltedd. Gall menywod gymryd rhan yn y fenter o'r apwyntiad cyntaf, gan fod y broses gwneud cais wedi cael ei hintegreiddio yn y ffurflen trefnu apwyntiad beichiogrwydd cyntaf ar-lein. O ganlyniad, caiff menywod eu grymuso i ddarllen gwybodaeth ddigidol, defnyddio adnoddau mamolaeth, a chael cymorth drwy gydol y cyfnodau cynenedigol ac ôl-enedigol.

Roedd yr ysbyty yn barth dim smygu dynodedig, ac roedd y gwaharddiad hwn yn cynnwys e-sigarêts/anwedd. Cadarnhaodd y bydwagedd bod cymorth i roi'r gorau i smygu yn cael ei gynnig yn ystod y cyfnod cynenedigol.

Gwnaethom edrych ar wybodaeth Menter Baby Friendly UNICEF am gefnogi bwydo ar y fron a chydberthnasau rhwng rhiant a babi a oedd ar gael i fenywod i wella safonau gofal a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau mamolaeth.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd pob un o ddefnyddwyr y gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad, a'u teuluoedd, a'r rhan fwyaf a ymatebodd i'r holiaduron, yn teimlo bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch (37/41).

Mae'r sylwadau a wnaed yn cynnwys y canlynol:

“Ffantastig. Roeddwn i'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi. Gofal hyfryd iawn. Staff empathetig.”

“Mae pob bydwraig yn anhygoel ac yn gefnogol. Doedd dim byd yn ormod iddyn nhw.”

“Roedd y staff i gyd yn dda iawn. Rwy'n fodlon ar y gofal.”

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff (50/53) a atebodd holiadur AGIC, yn eu barn nhw, eu bod yn llwyddo i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.

Clywodd y tîm arolygu bob aelod o'r staff yn bod yn gwrtais ac yn barod i helpu pob menyw ac unigolyn a oedd yn rhoi genedigaeth a'u teuluoedd. Roedd sgysiau am ofal yn cael eu cynnal yn dawel â'r llenni wedi'u cau, ond gellid clywed sgysiau weithiau oherwydd cynllun y baeau.

Gwelsom fenywod a'u teuluoedd yn cael eu trin mewn ffordd garedig a sensitif drwy gydol yr arolygiad.

Gwelsom fod ystafell brofedigaeth ddynodedig (ystafell Bluebell) yn yr uned a oedd ar wahân i'r brif ward esgor ac wedi'i haddurno i safon uchel i gefnogi teuluoedd yr oedd angen iddynt ddefnyddio'r ystafell hon. Dangosodd ein trafodaethau â'r staff fod gofal profedigaeth yn cael ei ddarparu mewn modd amserol a sensitif a chadarnhaodd yr arweinydd gofal profedigaeth fod hyrwyddwyr profedigaeth wrthi'n cael eu recriwtio i helpu bydwagedd a theuluoedd a oedd wedi cael profiad o brofedigaeth ymhellach.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo dewisiadau cleifion. Drwy gydol yr arolygiad, clywsom aelodau o'r staff, ar bob lefel, yn cael sgysiau cefnogol a gofalgarn â menywod a'u teuluoedd am eu gofal a'u triniaeth. Roedd pob un o'r menywod y gwnaethom siarad â nhw yn yr uned famolaeth yn canmol eu gofal.

Dywedodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod eu dewisiadau o ran eu gofal wedi cael eu parchu. Roedd dewisiadau geni yn cynnwys y defnydd o bwll geni ar y ward esgor (ar gyfer genedigaethau risg is a arweinir gan obstetreg) ochr yn ochr â'r ystafell esgor a arweinir gan fydwragedd yn yr uned famolaeth hon. Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom fod y trafodaethau hynny am gynllun esgor, meddyginiaethau lleddfu poen a bwydo yn cael eu dogfennu'n effeithiol. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o fenywod fod y bydwagedd wedi esbonio'r opsiynau geni a'r risgiau, ac wedi rhoi cymorth. Er hyn, gwnaeth tri defnyddiwr gwasanaethau mamolaeth sylw wyneb yn wyneb ynghylch sgiliau cyfathrebu gwael ymhlith meddygon. Nodwyd sylwadau am y sgiliau cyfathrebu a gwrando yn yr arolwg. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mae pob bydwraig a Chynorthwydd Gofal Iechyd wedi bod yn hyfryd iawn. Mae'r tîm meddygol hefyd wedi bod yn garedig ac yn gefnogol o fy newisiadau ar y cyfan. Cefais un sgwrs siomedig ag ymgynghorydd pan gyrhaeddais y ward ac roeddwn i'n teimlo nad oedd yn gwrando arnaf ac roedd yn anghytuno â fy nghynllun i gymell geni ychydig yn gynt (cynllun a luniais ar y cyd ag ymgynghorydd arall yn y bwrdd iechyd). Ar wahân i hynny, rwyf wedi cael profiad hyfryd o ran y staff, er iddi fod yn daith anodd i mi hyd yma.”

“Ni allem fod wedi cael profiad geni gwell. Roedd pob aelod o'r staff, gan gynnwys y bydwagedd dan hyfforddiant yn hawdd mynd atynt, yn llawn cydymdeimlad ac yn barod i helpu. Gwnaethant wrando arnom, ateb unrhyw gwestiynau a oedd gennym a pharchu ein dewisiadau drwy gydol yr enedigaeth. Gwnaethant ddarparu gwybodaeth i ni yn ystod yr enedigaeth fel pa gam roeddem arno a'r hyn a fyddai'n digwydd nesaf am na chafodd ein hapwyntiad i gynllunio'r geni ei gynnal gan ein bod wedi rhoi genedigaeth yn gynnar. Ni allaf ddiolch digon i'n bydwagedd - roedden nhw'n wirioneddol ffantastig ac yn glod i'r ysbyty.”

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau mamolaeth ar ddulliau cyfathrebu'r meddygon a mynd i'r afael ag unrhyw batrymau sy'n dod i'r amlwg.

Gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff a chadarnhaodd pob un ohonynt fod adborth gan gleifion yn cael ei ystyried ar gamau gwahanol yn ystod y beichiogrwydd a'r cyfnod gofal ôl-enedigol. Roedd yr adborth yn cael ei fonitro ac roedd unrhyw broblemau yn cael eu datrys mewn modd amserol. Gwnaethom gyfarfod ag aelodau o staff a oedd yn gyfrifol am brofiad y claf a gadarnhaodd eu bod yn monitro cyfryngau cymdeithasol y bwrdd iechyd yn rheolaidd er mwyn sicrhau os oedd menywod yn anfodlon ar eu gofal, fod cyfle iddynt gyfathrebu ag aelod o staff.

Roedd bydwraig profiad y claf yn y gwasanaeth i gydgyssylltu a sicrhau bod llais y claf yn cael ei glywed a'i gynrychioli wrth wneud penderfyniadau. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym fod gwasanaeth Myfyrio ar Enedigaethau ar gael i unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth a'i bartner a oedd wedi rhoi genedigaeth yn ardal y bwrdd iechyd, a oedd yn rhoi cyfle iddynt rannu eu profiadau o wasanaethau mamolaeth a myfyrio arnynt.

Amserol

Gofal amserol

Roedd y mwyafrif o'r bobl a gwblhaodd holiadur yn fodlon iawn ar y gofal a ddarparwyd. Dywedodd dau ddefnyddiwr gwasanaethau mamolaeth y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym fod y gwasanaeth yn “arbennig”.

Dywedodd defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth y gwnaethom siarad â nhw y byddai'r staff yn diwallu eu hanghenion mewn modd amserol a bod cymorth ar gael fel arfer. Dywedodd rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth wrthym fod peth oedi cyn cael meddyginiaethau lleddfu poen ar ôl rhoi genedigaeth, ond cadarnhaodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod wedi cael meddyginiaethau lleddfu poen yn ystod y cyfnod esgor a'r enedigaeth mewn modd amserol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (32/53) a ymatebodd i'n harolwg staff nad oedd ganddynt ddigon o amser i ymdopi â'r gofynion croes o ran eu hamser yn y gwaith.

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal y cleifion a gadarnhaodd fod anghenion personol y cleifion, a'u hanghenion o ran maeth a chysur, yn cael eu hystyried yn rheolaidd.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaethau lleddfu poen priodol eu rhoi mewn modd amserol ar ôl genedigaeth.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwnaethom nodi bod aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg ac er nad oedd nifer o'r defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth yn siarad Cymraeg, dywedodd un fenyw y gwnaethom siarad â hi, ac a oedd yn siarad Cymraeg, ei bod wedi ceisio dod o hyd i aelod o'r staff a oedd yn gwisgo bathodyn iaith Gwaith ond na lwyddodd i wneud hynny. Roedd yr aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynau “Iaith Gwaith” i ddangos hynny. Nid oedd yr holl bosteri a gwybodaeth a oedd i'w gweld ym mhob rhan o'r uned ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond roedd y codau QR yn arwain at wybodaeth a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r cynnig rhagweithiol ar gyfer gofal Cymraeg i ddefnyddwyr gwasanaethau mamolaeth.

Dywedodd aelodau o'r staff wrthym eu bod yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar gyfer menywod a theuluoedd nad Cymraeg/Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Nid oedd arwyddion clir i'r uned famolaeth o'r prif faes parcio, ym mhrif fynedfa'r ysbyty nac yn adeiladau eraill yr ysbyty. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd i bobl ddod o hyd i'r lle priodol i gael gofal ac achosi oedi wrth gael gofal.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella arwyddion i'r uned famolaeth yn yr ysbyty (gan gynnwys o'r maes parcio a'r brif fynedfa) er mwyn sicrhau ei bod hi'n hawdd i bob claf ac ymwelydd sy'n dod i'r ysbyty ddod o hyd i'r uned famolaeth.

Roedd hysbysfyrddau diddorol a deniadol yn cael eu harddangos ag enwau'r staff ar y wardiau er mwyn i fenywod a theuluoedd adnabod y rhai hynny a oedd yn darparu gofal iddynt.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwnaethom edrych ar wybodaeth ar-lein y bwrdd iechyd, gan gynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2023-2027, a oedd yn cadarnhau ei ymrwymiad i ofal iechyd teg.

Dywedodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwblhaodd yr holiadur, a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw, nad oeddent wedi wynebu unrhyw achos o wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn neu ei ddefnyddio ar sail unrhyw nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Er gwaethaf hyn, dywedodd dau wrthym eu bod wedi wynebu gwahaniaethu oherwydd anabledd a nododd dau arall eu bod wedi wynebu gwahaniaethu oherwydd cyfeiriadedd rhywiol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hymgorffori yn yr ymarfer a bod unrhyw adborth negyddol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth mewn perthynas â gwahaniaethu yn cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau.

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a darparwyd enghreifftiau lle roedd addasiadau rhesymol ar waith, neu'n cael eu gwneud, fel bod pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchodedig, yn gallu defnyddio'r gwasanaeth.

Gwnaethom gyfarfod â thîm o staff amrywiol a gwelsom fod hyfforddiant ar amrywiaeth a chydraddoldeb yn orfodol i bob aelod o'r staff, gyda lefelau cydymffurfiaeth uwchlaw 85%.

Roedd ystafelloedd ac ystafelloedd ymolchi hygrych a mynediad gwastad yn ogystal â choridoriau llydan yn yr uned er mwyn sicrhau bod modd i bawb eu defnyddio'n hwylus.

Gwnaethom siarad â'r fydwraig a oedd yn gyfrifol am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a ddywedodd wrthym fod yr uned ar fin cyflwyno cais i Diverse Cymru er mwyn cydnabod y gwaith a weir yn y maes hwn ar hyn o bryd ac i nodi gwelliannau. Gwelsom fod polisi Trawsrywedd ar waith. Gwelwyd tystiolaeth o'r

gwaith a wneir i wella cydraddoldeb ar gyfer y rhai sy'n byw mewn amddifadedd drwy'r gwaith prosiect banc data digidol (y soniwyd amdano yn flaenorol).

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a threfniadau rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd cofnodion defnyddwyr y gwasanaeth a welsom o safon uchel ac yn cadarnhau fod gwaith cynllunio gofal dyddiol yn hybu diogelwch y cleifion.

Gwelsom fod cyfarfodydd trosglwyddo yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd, ar adeg trosglwyddo shift, gyda'r bwriad o gynnal parhad gofal. Er ein bod wedi nodi enghraifft o ymarfer cadarnhaol wrth ystyried manylder y cyfarfodydd trosglwyddo, nodwyd gennym nad oedd taflen bresenoldeb wedi'i llofnodi ar gyfer pob cyfarfod trosglwyddo wedi'i dogfennu fel mater o drefn. Rhannwyd yr adborth â'r arweinwyr obstetrig, a rhoddwyd y newid hwn ar waith ar unwaith.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod yr uned yn gweithio tuag at roi System Brysbennu Obstetrig Symptom-benodol Birmingham (BSOTS) ar waith yn llawn fel system frysennu ffurfiol safonol. Gwnaethom edrych ar y systemau a'r prosesau ar gyfer brysbennu gofal mamolaeth a siarad ag aelodau o'r staff. Nodwyd nifer o feysydd nad oeddent yn cydymffurfio'n llawn â'r system BSOTS. Roedd hyn yn cynnwys:

- Dim llinell ffôn ddynodedig ac ar wahân er mwyn i fydwragedd roi cyngor clinigol i'r rhai a oedd yn ffonio'r uned. Er bod ffôn ar gael yn yr ardal brysbennu gofal mamolaeth, nid oedd ar wahân i'r ardal cleifion, a oedd yn golygu y byddai risg o dorri ar draws, achosion o oedi o ran gofal amserol neu flaenoriaethau sy'n gwrthdaro. Mae hefyd diffyg preifatrwydd a risg o dorri cyfrinachedd gwybodaeth
- Er y cadarnhaodd y staff a oedd yn gweithio yn yr ardal hon fod gwaith papur ar waith, nid oedd dull BSOTS o frysennu cleifion wedi cael ei roi ar waith yn llawn hyd yma
- Dywedodd aelodau o'r staff wrthym fod staff dynodedig yr uned Asesu Mamolaeth yn cael eu symud yn aml i gefnogi'r Uned Asesu Dydd mewn ardal arall o'r uned, gan eu gadael yn teimlo'n anniogel
- Cadarnhaodd aelodau o'r staff eu bod wedi cael hyfforddiant ar BSOTS ar ffurf fideo fer a'u bod yn teimlo nad oedd hyn yn ddigonol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithgarwch, lefelau staffio, lleoliadau, hyfforddiant a phrosesau sy'n gysylltiedig â'r Uned Asesu Mamolaeth er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol i bob menyw sy'n cysylltu â'r gwasanaeth.

Gwnaethom edrych ar bolisi Uwchgyfeirio a oedd ar gael bob amser i bob aelod o'r staff. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fanylion y polisi hwn a dywedwyd wrthym sut y byddent yn uwchgyfeirio mater pe bai angen. Mae rota rheolwr ar alwad ar waith, ac mae manylion y rhai hynny sydd ar alwad ar gael i'r staff uwchgyfeirio materion atynt. Mae'r wybodaeth hon ar gael fel rhan o'r cyfarfodydd sgrym dyddiol. Nododd staff y ward esgor y gwnaethom siarad â nhw bod y staff mewn ardaloedd gwahanol o'r uned hon yn cyfathrebu'n dda â staff unedau eraill ynghylch materion a gaiff eu huwchgyfeirio pan fo'r ward esgor neu'r uned newyddenedigol ar olau oren neu goch. Mae bydwagedd cymunedol ar alwad er mwyn mynd i'r afael â phrinder staff a chant eu defnyddio ar y ward ôl-enedigol yn hytrach nag yn yr ardaloedd risg uchel.

Roedd dwy theatr ar y ward esgor ar gyfer achosion obstetrig.

Gwnaethom edrych ar y rhestrau gwirio, y systemau a'r prosesau effeithiol a oedd ar waith ac yn gyflawn mewn perthynas â darparu gofal obstetrig diogel ac effeithiol yn y theatr. Gwelsom drefniadau gweithio amlddisgyblaethol effeithiol. Gwelsom fod menywod a'u partneriaid yn cael eu cefnogi'n effeithiol yn y theatr a bod y staff yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw. Fel rhan o'r arolygiad, gwnaethom edrych ar wybodaeth adrannol am risgiau a gadarnhaodd bod y bwrdd iechyd wedi cofnodi materion mewn perthynas â swyddogaethau drysau'r theatr obstetrig. Roedd y mater hwn wedi'i nodi yn yr adborth a gafwyd gan y staff hefyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff risgiau mewn perthynas â diogelwch drysau'r theatr obstetrig eu lliniaru ac y cymerir camau unioni i sicrhau bod diogelwch amgylchedd y theatr obstetrig yn cael ei flaenoriaethu.

Roedd anesthetyddion yn cael eu hystyried yn y theatrau obstetrig. Roedd obstetryddion ymgynghorol ac anesthetyddion ymgynghorol ar alwad o'u cartref, ac roedd clinigwyr iau ar gael ar y safle. Gall hyn achosi oedi o ran gofal amserol pe ymdrinnir ag argyfyngau yn y ddwy theatr.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r lefelau staffio yn y theatrau obstetrig i sicrhau bod staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar gael i ymdrin ag argyfyngau obstetrig 24 awr y dydd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg effeithiol wedi'u cynnal a bod camau lliniaru effeithiol wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â'r prosesau sy'n gysylltiedig ag unrhyw dîm sydd ei angen ar gyfer y theatr obstetrig y tu allan i oriau er mwyn sicrhau gofal theatr obstetrig brys diogel, effeithiol ac amserol.

Gwnaethom edrych ar y cerdyn gwybodaeth i fenywod sy'n aros ar yr uned famolaeth yn Ysbyty Tywysoges Cymru ar gafodd ei ddatblygu'n ddiweddar. Rhoddir y wybodaeth hon ar ffurf cerdyn diogelwch ac mae'n cynnwys argymhellion i'r rhai sy'n aros ar yr uned famolaeth gadw eu hunain a'u beichiogrwydd / newydd-anedig yn ddiogel. Roedd y wybodaeth yn cynnwys sut i atal clotiau gwaed, atal heintiau, atal briwiau pwyso, rhoi gwybod am bryderon, monitro symudiad y babi, sut i gyfeirio atoch chi a'ch babi, sut i ofalu am eich babi a gwybodaeth am adael yr ysbyty. Mae'r "cerdyn diogelwch" hwn yn grymuso defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth i gymryd camau i sicrhau eu bod yn cael y gofal mwyaf diogel posibl. Roedd hyn yn arfer canmoladwy yn ein barn ni. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd y bydd yn gwerthuso unrhyw ganlyniadau mewn perthynas â'r broses o roi'r cerdyn hwn ar waith.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pob ardal glinigol ar yr uned famolaeth yn lân yr olwg, yn daclus ac nid oedd unrhyw annibendod.

Roedd ardaloedd o'r uned yn hŷn, yn ymddangos yn hen ac roedd angen eu gwella a'u diweddarau. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys drysau i'r ystafelloedd esgor a oedd wedi gwisgo ar yr ochrau y byddai'n anodd eu glanhau. Er bod y cyfleusterau cawod yn lân, roeddent yn ymddangos yn hen ac roedd angen eu hatgyweirio a'u hail-selio er mwyn sicrhau y gellir eu glanhau'n haws.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a diweddarau ardaloedd o'r uned y gall fod yn heriol eu glanhau'n effeithiol. Dylid adolygu'r amgylchedd i sicrhau ei fod yn parhau'n addas at y diben.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r safonau o ran bod yn Noeth o dan y Penelin a gwelsom fod technegau hylendid dwylo da ar waith. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y gweithdrefnau golchi dwylo cywir i'w dilyn er mwyn i'r staff allu edrych arnynt i'w hatgoffa. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned.

Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant bod 87% o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau hyd at lefel dau.

Gwelwyd dogfennau priodol a rhestrau gwirio mewn perthynas â phrosesau glanhau'r uned a phrosesau penodol ar gyfer glanhau'r pwll geni.

Diogelu plant ac oedolion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y mesurau diogelwch a oedd ar waith er mwyn sicrhau bod teuluoedd a babanod yn ddiogel. Roedd mynediad i bob ardal wedi'i gyfyngu gan ddrysau wedi'u cloi, na ellid eu hagor heb bws staff. Er mwyn

amddiffyn diogelwch y babanod, rhoddir band o amgylch eu braich/troed ac mae synhwyrdd pwysau yn y cotiau sy'n gweithredu fel larwm diogelwch y mae gan y menywod allwedd ar ei gyfer.

Roedd yr ardal Dibyniaeth Fawr a oedd wedi'i rhoi ar waith yn ddiweddar wedi'i lleoli y tu allan i'r ardal lle mae'r larwm yn weithredol. Mae hyn yn cynrychioli risg bosibl i'r babanod sydd wedi'u lleoli yn yr ardal hon.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer yr ardal dibyniaeth fawr a nodi'r dulliau lliniaru risgiau mewn perthynas â diogelwch.

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu a gwella diogelwch unrhyw fabanod a gaiff eu lleoli yn yr ardal dibyniaeth fawr hon.

Cynhaliwyd ymarfer herwgydio babanod ym mis Awst 2025 ac roedd tystiolaeth o rannu adborth a dysgu gwersi er mwyn sicrhau diogelwch parhaus y babanod yn yr adran.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y bwrdd iechyd i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion a all fod yn wynebu risg. Roedd yn rhaid i'r staff gwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant bod 93% o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu (oedolion a phlant) hyd at lefel dau. Roedd graddfa gydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu lefel tri yn isel, sef 73%.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r raddfa gydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu lefel 3 yn unol â gofynion y bwrdd iechyd.

Rheoli gwaed

Trafodwyd y prosesau priodol â'r staff mewn perthynas â rheoli gwaed yn ddiogel. Yn benodol, roedd prosesau diogel i reoli gwaedlif obstetrig mawr ar waith a chadarnhaodd cofnodion y cleifion fod canllawiau Strategaeth Gwaedu Obstetrig i Gymru yn cael eu dilyn.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwnaethom edrych ar y gwiriadau ar gyfer dyfeisiau a chyfarpar meddygol er mwyn sicrhau bod pob darn o gyfarpar, gan gynnwys dadebrwyr a diffibrilwyr yn gweithio'n effeithiol ac yn ddiogel i'w ddefnyddio mewn argyfwng meddygol. Er ein bod yn fodlon bod gwiriadau rheolaidd a chyson yn cael eu cynnal, dywedodd aelodau o'r staff wrthym fod llai o ddyfeisiau adfywio ar gael ar y ward esgor ers iddynt ddychwelyd i'r uned ar ôl iddi gael ei hadnewyddu. O ganlyniad, roeddent yn symud y dyfeisiau adfywio i wahanol ardaloedd o'r ward yn rheolaidd i sicrhau y gellid cael gafael arnynt yn rhwydd. Gallai symud y dyfeisiau adfywio yn rheolaidd

greu risgiau atal a rheoli heintiau o ran croes-halogi a / neu risgiau y bydd rhannau o'r cyfarpar hwn yn symud / dod yn rhydd wrth ei symud yn rheolaidd a gall hyn achosi methiant o ran y cyfarpar. Codwyd y mater hwn gyda'r uwch-arweinwyr, a nododd bod dyfais adfywio arall wedi'i lleoli mewn ardal arall ers i'r uned symud, a'i bod bellach wedi cael ei dychwelyd i'r ward esgor. At hynny, cadarnhaodd y cofnodion bod y dyfeisiau adfywio a oedd ar waith ar hyn o bryd yn dod i ddiwedd eu hoes a bod dyfais newydd wedi cael ei harchebu yn lle pob dyfais adfywio arall yn ogystal â dwy ddyfais ychwanegol i sicrhau effeithlonrwydd a bod dyfais ar gael yn yr ardaloedd aciwtedd uwch. Cadarnhawyd hyn gan y cofnodion disodli cyfalaf.

Gwelwyd heriau mewn perthynas â chyfarpar wedi torri yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys golchfa ar yr uned nad oedd yn gwagio, yr oedd angen ei hatgyweirio, gwely ar y ward esgor a oedd wedi torri ac yn aros i gael ei atgyweirio ac nid oedd un o'r pedair ystafell esgor yn cael ei defnyddio ers i'r uned ailagor oherwydd problem gyda'r llif aer. Dywedodd aelodau o'r staff wrthym fod problemau ystadau ac amseroldeb y gwaith atgyweirio yn effeithio ar y ddarpariaeth gofal ac effeithlonrwydd. Gallai hyn effeithio ar brofiad y claf yn ogystal â'r broses o ddarparu gofal yn ddiogel, yn arbennig yn ystod y cyfnodau prysuraf.

Cadarnhaodd hanner y staff a ymatebodd i'n harolwg nad oedd ganddynt ddeunyddiau, cyflenwadau na chyfarpar digonol i wneud eu gwaith. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae pob shift yn her. Mae'n rhaid i ni frwydro am gyfarpar a lle i'r menywod a'u teuluoedd, ac mae'r staff yn cael eu hanfon i bob rhan o'r uned ar fyr rybudd oherwydd y prinder hwn.”

“Mae'r cyfarpar yn broblem, agorwyd yr uned gofal uwch newydd heb Weithred Weithredu Safonol, ac nid oedd dyfais adfywio ar y ward esgor sy'n golygu bod angen symud y dyfeisiau adfywio hyn ar gyfer menywod ar y Ward esgor ... Rydyn ni wedi mynd ar ôl yr adran ystadau ers misoedd er mwyn cwblhau'r rhestr o'r gwaith sy'n weddill.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r holl faterion ystadau sy'n weddill a mynd i'r afael â nhw a sicrhau bod proses ddatrys / lliniaru risgiau amserol ar waith.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyflenwadau a chyfarpar meddygol hanfodol bob amser ar gael i'r staff ac y caiff system fwy cadarn ei rhoi ar waith ar gyfer monitro ac olrhain cyfarpar.

Gwelwyd cyfarpar gwagio mewn argyfwng yn ystafell y pwll geni, y gellid ei ddefnyddio pe bai cymhlethdodau yn codi yn ystod genedigaeth ddŵr. Rhoddwyd sicrwydd i ni hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w ddefnyddio mewn argyfwng, a oedd yn cael ei gwblhau bob dwy flynedd.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y systemau a'r broses ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau yn ddiogel. Dywedwyd wrthym fod technegydd fferyllol a enwir a fferyllydd ar alwad ar gael i sicrhau bod cyffuriau a reolir ar gael. Roedd meddyginiaethau eraill yn cael eu dosbarthu gan robot.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd bod cyffuriau a reolir yn cael eu storio mewn cwpwrdd cyffuriau a reolir dan glo. Fodd bynnag, roedd cyffuriau nas reolir eraill yn cael eu storio ochr yn ochr â'r cyffuriau a reolir hyn. Er mwyn cydymffurfio â "Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau (Dulliau Storio Diogel) 1973" (legislation.gov.uk) dylid storio cyffuriau a reolir yn eu cwpwrdd dan glo eu hunain, ar wahân i feddyginiaethau eraill er mwyn cyfyngu ar fynediad at gyffuriau a reolir. Ar ôl rhoi adborth i'r uwch-arweinwyr, aethpwyd i'r afael â'r mater hwn ac fe'i datryswyd yn ystod yr arolygiad. Bellach, caiff y cyffuriau a reolir eu storio mewn cabinet dan glo ar wahân i'r meddyginiaethau eraill. **Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.**

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod y cleifion yn dod â'u meddyginiaethau eu hunain ac yn eu cymryd eu hunain. Caiff hyn ei nodi ar y siart meddyginiaeth. Yna, bydd y fydwaig yn nodi hyn ar y siart gyffuriau yn hytrach na'i llofnod. Er bod y broses yn un briodol, ni allem gadarnhau bod loceri meddyginiaeth ar gael yng nghyprddau'r cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a diweddarau'r broses a'r ymarfer i sicrhau y gellir storio meddyginiaethau'r cleifion o gartref yn ddiogel.

Gwelsom fod siartiau cyffuriau yn cael eu cwblhau'n gywir ar y cyfan gan y staff bydwreigiaeth a'r staff meddygol a oedd yn gyfrifol am roi'r feddyginiaeth.

Gwelsom dystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom fod rhestrau gwirio priodol wedi'u cwblhau, ac y byddai unrhyw risgiau parhaus o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd yn cael eu monitro.

Cadarnhaodd y staff fod cynfasau a byrddau llithro ar gael yn ogystal â matresi arbenigol i fenywod â BMI uwch er mwyn lleihau'r risg o bwysau a niwed i feinweoedd.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod systemau addas ar waith ar gyfer caffael a rhannu gwybodaeth berthnasol. Yn ystod yr arolygiad, llwyddodd yr uwch-reolwyr i roi sicrwydd i ni fod

archwiliadau mewnol wedi'u cynnal a rhoesant dystiolaeth o amrywiaeth o archwiliadau a gynhaliwyd a gwelliannau a wnaed i'r tîm. Gwnaethom edrych ar yr amserlen archwiliadau clinigol.

Cadarnhaodd y bydwragedd a'r meddygon y gwnaethom siarad â nhw fod cydberthnasau gwaith da ar waith rhwng y cydweithwyr meddygol a'r staff bydwreigiaeth.

Gwelsom fod ffolderi safonol ar waith ym mhob ystafell esgor ag algorithmau i reoli achosion clinigol yn ogystal â pholisïau er hwylustod. Roedd hyn yn arfer canmoladwy.

Maeth a hydradu

Gwelsom y staff yn cynnig diodydd poeth ac oer i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd jygiau o ddŵr ar gael i bob un ohonynt yn hawdd. Gwnaethom siarad â defnyddwyr y gwasanaeth a ddywedodd wrthym eu bod yn cael dewis yr hyn y maent am ei fwyta a'i yfed. Roedd bwyd poeth ar gael, ynghyd â chyflenwad o fwyd a byrbrydau iach y tu allan i'r amseroedd bwyd. Dywedodd y staff wrthym fod darpariaeth i fodloni gofynion deietegol penodol, gan gynnwys alergeddau, anoddefiadau a gofynion crefyddol neu ddiwylliannol.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion chwe chlaf. Ar y cyfan, gwelsom fod y cofnodion a oedd yn cael eu cadw o safon dda, a bod cynlluniau gofal yn cael eu dogfennu'n dda rhwng y timau amlddisgyblaethol. Gwelsom fod Sgôr Rhybudd Obstetrig Cynnar wedi'i Haddasu (MEOWS) yn cael ei chwblhau'n gyson yn y cofnodion a welsom.

Dywedwyd wrthym fod disgwyl i system cofnodion cleifion mamolaeth ddigidol gael ei rhoi ar waith ym mis Mawrth 2026 a chadarnhaodd yr uwch aelodau o staff bod cynlluniau ar waith i amharu cyn lleied â phosibl ar y broses hon.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd ymatebion y staff yn gymysg, gyda'r rhan fwyaf yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu rhoi i gleifion (37/53) ac roeddent yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan eu hysbyty iddynt hwy eu hunain neu ffrindiau a theulu (34/53). Fodd bynnag, dywedodd llai o'r staff y byddent yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio (21/54).

Dyma rai o'r sylwadau a gafwyd am yr adran a sut y gallai wella:

“Mae safon y gofal yn dda iawn ar y cyfan gan fod y rhan fwyaf o'r staff yn ymdrechu i ddarparu hyn. Fodd bynnag, o gofio am faterion fel prinder staff a'r pwysau y maent yn eu hwynebu, nid yw hyn bob amser yn gyflawnadwy. Caiff gormod o newidiadau eu rhoi ar waith heb gyfraniad digonol gan y staff. Mae strwythur newydd yr uwch-dîm rheoli yn achosi problemau gyda'i ddull microreoli. Yn anffodus, nid yw'r staff yn hapus, ond rydyn ni'n gwneud ein gorau i gefnogi ein gilydd!!”

“Nid oes fyth digon o staff. Mae'r tîm rheoli yn defnyddio Datix fel bygythiad. Mae aelodau presennol o'n tîm rheoli yn fwlis. Nid yw'r staff yn cael eu trin yn gyfartal pan fo mwy nag un person yn gysylltiedig â digwyddiad. Mae aelodau penodol o staff band 7 yn siarad mewn ffordd ddifriol â'r staff. Mae gormod o reolwyr a dim digon o staff yn gweithio gyda'r cleifion. Does dim ots pa mor brysur yw'r ward, mae'r ward esgor bob amser yn defnyddio staff y ward yn hytrach nag oedi'r broses o gymell geni sy'n golygu bod staff y ward yn wynebu cwynion am oedi gofal...”

“...mae lle i newid a gwella yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Er bod y bydwagedd sy'n gweithio'n glinigol bob amser yn ceisio cynnal y safon uchaf o ddiogelwch cleifion, mae hyn yn aml yn disodli ein llesiant ein hunain. Nid oes fyth digon o staff, ac rydym yn gweithio mewn amgylchedd nad yw'n meithrin llesiant y staff pan nad yw'r llwyth gwaith clinigol yn caniatáu hynny...”

“Mae wedi bod yn brysur iawn ers i ni ailagor ac mae llawer o newidiadau wedi'u gwneud, ond rydyn ni bellach yn gweld gwelliannau sy'n dda i'w gweld ac i fod yn rhan ohonynt.”

“Rwyf wrth fy modd â fy swydd. Mae'r staff yn gweithio'n galed iawn i wneud yn siŵr bod menywod a'u teuluoedd yn cael profiad cadarnhaol iawn. Mae'r tîm rheoli yn gefnogol iawn.”

“Mae Ysbyty Tywysoges Cymru yn arbennig iawn. Rydyn ni'n dîm, rwy'n gwybod enw pawb, rwy'n gwybod enwau eu plant ac mae pob un ohonom yn gwybod sut rydyn ni'n gweithio ac yn cefnogi ein gilydd fel teulu. Fodd bynnag, mae'n dod yn anodd iawn gwneud hynny ar hyn o bryd gan fod prinder cyfleusterau, staff ac adnoddau.”

Rhannwyd y themâu a nodwyd yn ymatebion dienw y staff i'r arolwg ag arweinwyr y bwrdd iechyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a gweithredu ar y themâu sy'n codi mewn adborth gan staff a rhoi camau gweithredu ar waith a'u monitro i wella boddhad y staff.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Ar ôl cyfnod o ansefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth, roedd yn galonogol gweld bod strwythur arwain sefydlog ar waith. Amharwyd yn sylweddol ar bob aelod o staff yr uned famolaeth eleni gan fod y mwyafrif o staff yr adran famolaeth wedi cael eu hadleoli i adrannau mamolaeth eraill yn ardal De Cymru gan fod yr uned yn Ysbyty Tywysoges Cymru wedi'i chau er mwyn cynnal gwaith adeiladu brys. Gwnaed trefniadau i roi'r amhariad hwn ar waith ar fyr rybudd ac mae wedi effeithio'n fawr ar forâl nifer o'r staff. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i wella morâl a'r heriau cyfathrebu o fewn y tîm o staff, a rhannwyd sawl menter â'r arolygwyr. Roedd y mentrau hyn yn cynnwys ymarferion gwrando, digwyddiadau llesiant, a hyfforddiant arweinyddiaeth dosturiol a mewnbwn gan seicolegydd staff. Rhannodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu rhwystredigaeth ynghylch cyfathrebu a morâl gwael â'r tîm arolygu. Er gwaethaf ymdrechion yr uwch-arweinwyr i wella morâl a'r prosesau cyfathrebu, nododd adborth o'r arolwg staff fod llai na hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y cyfathrebu rhwng yr uwch-dîm rheoli a'r staff yn effeithiol.

Awgrymodd adborth gan aelodau o'r staff bod diffyg cyswllt rhwng y staff rheng flaen a'r uwch-dîm rheoli gweithredol. Dywedodd aelodau o'r staff wrthym fod diffyg eglurder o ran yr arweinyddiaeth yn y sefydliad, yn arbennig o ran sut y caiff gwasanaethau eu darparu yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu, gwerthuso a gwella'r broses gyfathrebu ac ymgysylltu rhwng yr uwch-dîm rheoli a'r staff er mwyn adeiladu ar ymddiriedaeth a'r morâl ar ôl cyfnod o amhariad sylweddol.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom drefniadau gweithio da gan y tîm amlddisgyblaethol. Cadarnhaodd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw fod y trefniadau gweithio hyn gan y tîm amlddisgyblaethol yn gadarnhaol.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff drwy godau QR ar bosteri yn yr ardaloedd staff. Roedd hyn yn arfer canmoladwy yn ein barn ni gan ei fod yn sicrhau y gellid diweddarau'r polisïau ac y gallai'r staff ddarllen y fersiynau diweddaraf gan ddefnyddio'r posterï.

Gwnaethom edrych ar adroddiadau, cofnodion ac agendâu a oedd yn dangos bod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Cafodd y systemau, prosesau a'r strwythurau llywodraethu eu rhannu.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth, prosesau ac enghreifftiau o adroddiadau o ddigwyddiadau a'r cymorth a roddwyd a oedd yn ymddangos yn briodol. Gwelsom enghreifftiau o'r ffordd y rhannwyd y gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau â'r timau. Fodd bynnag, rhannodd y staff yr heriau a'r anghysondebau mewn perthynas â'r ffordd y rhoddwyd gwybod iddynt eu bod wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau a'r cymorth a ddarparwyd iddynt ar ôl y digwyddiadau hyn. Rhannodd aelodau o'r staff bryderon ynghylch rhoi gwybod am ddigwyddiadau oherwydd heriau diwylliannol.

Dywedodd pob un ond tri o'r aelodau o staff a ymatebodd i'r holiadur staff fod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau (50/53) ond ychydig iawn a ddywedodd bod eu sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â gwall, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn deg. Roedd nifer o sylwadau'r staff a gafwyd yn yr arolwg staff yn cefnogi ein canfyddiadau. Roeddent yn cynnwys y sylwadau canlynol:

“Ni chaiff y gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau mawr eu rhannu â'r staff mewn modd amserol. Mae'n teimlo'n aml fod aelodau'r tîm rheoli yn gwybod y gwersi a ddysgwyd heb eu rhannu â staff y ward. Mae'n ymddangos bod y gwersi a ddysgwyd o 'fân' ddigwyddiadau yn fwy effeithiol. Mae'r materion uchod yn cyfrannu at yr ymdeimlad o ddiffyg tryloywder â staff y ward.”

“Mae angen i'r staff deimlo'n fwy diogel yn yr amgylchedd gwaith o ran y prosesau rheoli. Rwy'n ymwybodol o nifer o enghreifftiau lle y mae'r staff wedi'u trin yn annheg neu mewn modd amhriodol gan staff yr uwch-dîm rheoli. Mae'n ymddangos bod y dyddiau lle roedd gwersi yn cael eu dysgu wedi troi'n ddyddiau o roi'r bai ar unigolion. Mae'n ymddangos bod hyn wedi newid yn sylweddol yn ystod y 12 i 18 mis diwethaf.”

Roedd teimladau'r bydwagedd band 5 a 6 y gwnaethom siarad â nhw yn dangos nad oedd diwylliant cadarn o fwrw'r bai ar waith.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a diwygio'r prosesau ymchwilio a'u cyfathrebu i bob aelod o staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall y broses gywir ac yn ei rhoi ar waith ac yn darparu cymorth fel y bo angen.

Rhaid iddo sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith i rannu'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau.

Cadarnhaodd yr uwch aelodau o staff nad oedd yr holl Oruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd ar gyfer yr uned wrth eu gwaith ac nad oeddent wedi bod yn y gwaith ers peth amser. Roedd y bylchau hyn wedi effeithio'n fawr ar y bydwragedd mewn perthynas â digwyddiadau, y cymorth a oedd ar gael a'r gwersi a ddysgwyd, o gofio bod rôl y Goruchwylwyr hyn yn cynnwys ymdrin â digwyddiadau, rhannu ymarfer cefnogol a goruchwyllo bydwragedd yn glinigol. Cadarnhaodd yr uwch-arweinwyr y cynlluniau a oedd ar waith i lenwi'r bylchau hyn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a blaenoriaethu cynllun er mwyn mynd i'r afael â bylchau o ran Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd i roi cymorth i'r rhai sydd wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiadau.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom rotas y staff ac roedd yn ymddangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion presennol Birth Rate Plus ar gyfer yr uned. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod yr uned yn defnyddio ap aciwtedd Birth Rate Plus yn ddyddiol i fonitro a chylchdroi'r staff yn unol ag aciwtedd. Cadarnhaodd y staff fod gofal un i un bob amser yn cael ei ddarparu i fenywod a oedd yn y cyfnod esgor.

Cadarnhaodd yr uwch-arweinwyr fod yr holl fydwragedd dan hyfforddiant yn parhau i weithio yn y bwrdd iechyd a'u bod wedi cael cynnig rolau parhaol ar ôl iddynt ennill eu cymhwyster. At hynny, roedd Birth Rate Plus wrthi'n cael ei adolygu a chadarnhaodd yr arweinwyr y byddent yn gweithredu ar yr argymhellion a wnaed.

Cadarnhaodd yr uwch-arweinwyr fod disgwyl i'r holl uwch-arweinwyr bydwreigiaeth drefnu shifftiau clinigol a'u cwblhau fel rhan o'r broses o wella cyfathrebu, gan ddarparu nifer ychwanegol o staff a chefnogi timau.

Er gwaethaf y mentrau a rannwyd gan yr arweinwyr mewn perthynas â nifer y staff, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo bod problemau o ran niferoedd isel o staff ar shifft. Dim ond nifer bach o'r staff a ymatebodd i'r arolwg staff oedd yn teimlo bod digon o staff er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith yn iawn (7/53). Gweler isod y sylwadau am y lefelau staffio:

“Rwy'n credu bod diffyg sylweddol o ran staff a'r ffaith nad ydynt yn cael egwylion yn arwain at weithlu sydd wedi blino'n lân. Rwyf i wedi blino'n lân, mae fy morâl yn isel ac nid wyf yn credu bod y diwylliant hwn yn gynaliadwy. Bydd hyn yn arwain at fydwragedd yn gadael y proffesiwn neu'n chwilio am waith amgen.”

“Mae dod i weithio i Ysbyty Tywysoges Cymru o leoliad gwaith arall wedi nodi cymaint y mae angen mwy o staff ar yr uned ac nad yw'r aelodau o staff y mae'n rhaid i mi weithio gyda nhw ar shifft yn meddu ar y cymwysterau cywir i ddarparu gofal diogel, effeithiol ac amserol i gleifion.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar adborth gan staff yn ymwneud â phryderon am lefelau staffio isel a mynd i'r afael ag unrhyw achosion.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer bydwagedd a meddygon a nodwyd lefel uchel o gydymffurfiaeth â'r holl gyrsiau hyfforddiant obstetrig gorfodol. Mae hyn yn fater canmoladwy a chadarnhaol, yn enwedig o gofio'r heriau o ran rheoli cydymffurfiaeth y mwyafrif o staff gwahanol am gyfnod sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl. (33/52)

Gwnaethom edrych ar gyfraddau cwblhau Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad ar gyfer y staff bydwreigiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y gyfradd hon yn 70% ar hyn o bryd ac roedd cynllun ar waith i wella'r gyfradd gydymffurfio ymhellach. Byddai hyn yn sicrhau gweithlu medrus a galluog, cefnogi llesiant a sicrhau y gellid mynd i'r afael â phroblemau perfformiad a'u datrys mewn modd amserol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella lefelau'r Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad yn unol â thargedau'r bwrdd iechyd.

Cafwyd adborth cymysg ar y rhaglen sefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff. Rhannwyd manylion am lyfryn gwybodaeth am y rhaglen sefydlu gynhwysfawr a oedd ar waith ar gyfer bydwagedd newydd. Roedd hyn yn gadarnhaol, yn enwedig i fydwragedd newydd gymhwyso. Fodd bynnag, dywedodd un aelod newydd o staff (nid un o aelodau'r staff a oedd newydd gymhwyso) nad oedd wedi cael ei sefydlu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhaglen sefydlu ar gael i bob aelod newydd o staff yn yr uned.

Cadarnhaodd nifer o'r bydwagedd y gwnaethom siarad â nhw bod mentrau Llesiant wedi'u rhoi ar waith ar ôl cyfnod o newid sylweddol. Gwnaethant rannu bod y mentrau hyn, i raddau, yn rhoi amser i'r bydwagedd ymlonyddu.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu.

Gwelsom fod gwybodaeth ar yr uned yn nodi sut y gallai defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth roi adborth ar eu profiadau. Roedd y wybodaeth hon hefyd i'w gweld yn nerbynfa'r clinig cynenedigol. Roedd gwybodaeth Dywedoch Chi Gwnaethom Ni i'w gweld a oedd yn nodi sut y cafodd pryderon a sylwadau gan bobl eu defnyddio i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth.

Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei rannu â'r staff. Gwelsom nifer o gardiau Diolch wedi'u harddangos yn yr uned.

Dywedwyd wrthym fod grŵp Lleisiau Mamolaeth ar waith i roi adborth i'r arweinwyr ar brofiadau menywod. O fis Medi 2025, cyflogwyd cadeirydd Partneriaeth Lleisiau Mamolaeth i'r rôl dau ddiwrnod i weithio gyda defnyddwyr y gwasanaeth ac i ystyried profiadau drwy gysylltu ag arweinwyr profiad y claf perthnasol y bwrdd iechyd yn ogystal â'r grŵp Llais lleol (llais y claf). Nodwyd bod y rôl â thâl hon yn enghraifft o arfer canmoladwy.

Roedd y staff yn croesawu'r sesiwn â'r seicolegydd clinigol. Roedd y staff o'r farn bod y sesiwn hon yn ddefnyddiol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion llywodraethu gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR) yn yr uned. Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel drwy gydol ein harolygiad.

Gwnaethom edrych ar y dangosfwrdd mamolaeth digidol a oedd yn cynnwys gwybodaeth a data cynhwysfawr i glinigwyr olrhain a monitro lles eu cleifion a gweithredu ar hynny.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn prosiectau gwella ansawdd er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, a chefnogi datblygiad

y staff. Roedd pob grŵp staff y gwnaethom siarad ag ef yn barod i dderbyn newidiadau, dilyn mentrau a chymryd rhan mewn prosiectau gwella ansawdd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod meddyginiaeth nas rheolir yn cael ei storio ochr yn ochr â'r cyffuriau a reolir ac nad oedd hyn yn cydymffurfio â'r canllawiau.	Roedd hyn yn peri risg nad oedd mynediad at gyffuriau a reolir yn cael ei gyfyngu'n ddigonol.	Rhoddodd arweinydd yr arolygiad wybod i'r uwch-reolwyr am yr achos hwn o dorri'r canllawiau.	Cafodd y cyffuriau a reolir a'r cyffuriau nas rheolir eu gwahanu ac maent bellach yn cael eu storio'n unol â'r canllawiau a'r rheoliadau.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Uned Famolaeth, Ysbyty Tywysoges Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 18-20 Awst 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Famolaeth, Ysbyty Tywysoges Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 18-20 Awst 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nododd adborth a gafwyd gan y cleifion nad oedd aelodau penodol o'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol	Adolygu adborth am brosesau cyfathrebu'r staff a mynd i'r afael ag unrhyw faterion	Yn canolbwyntio ar yr unigolyn - Effeithiol	Sicrhau bod pob aelod newydd o staff, gan gynnwys cydweithwyr meddygol, yn cyfarwyddo â'r uned.	Tîm addysg meddygol a Bydwagedd Datblygu Ymarfer	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
				Sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn cael 'pecyn croeso' sy'n helpu'r staff i ymgyswrtu â'r prosesau a'r gweithdrefnau	Bydwagedd Datblygu Ymarfer	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
2.	Nododd yr adborth a gafwyd fod rhoi meddyginiaethau	Sicrhau bod meddyginiaethau lleddfu poen ar gael	Diogel Amserol	Mae polisi hunanfeddyginiaethu Cymru gyfan wedi cael ei rannu er	Penaethiaid Bydwreigiaeth ac Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth	Adolygiad: Ebrill 2026

	lleddfu poen mewn modd amserol yn broblem	yn ystod y cyfnod ôl-enedigol	Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	mwyn i'r staff roi sylwadau arno, ac unwaith y caiff ei gadarnhau bydd y sefydliad yn helpu i'w roi ar waith. Cyfathrebu â phob aelod o'r staff ynghylch rhoi meddyginiaethau mewn modd amserol.	Arweinwyr gweithredol	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
3.	Nid oedd yn bosibl adnabod pob aelod o'r staff a oedd yn siarad Cymraeg yn hawdd	Gwella'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a sicrhau y gellir adnabod yr aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn hawdd	Teg Yn canolbwyntio ar yr unigolyn Safonau'r Gymraeg (Statudol, cyfeirir atynt yn Safonau GIG Cymru)	Rhoddir gwisgoedd â bathodyn Cymru arnynt y mae'n hawdd eu gweld i bob aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg.	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
4.	Arwyddion gwael / cyfyngedig ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r uned	Gwella'r arwyddion i'r adran	Diogel Yn canolbwyntio ar yr unigolyn Teg	Datblygu fideos er mwyn helpu menywod a'u teuluoedd i ddod o hyd i'r adrannau mamolaeth.	Bydwraig Profiad y Claf	Chwefror 2026

				Sicrhau y caiff arwyddion clir eu harddangos i helpu menywod a theuluoedd i ddod o hyd i'r uned famolaeth Yr adran ystadau i adolygu'r arwyddion ym mhob rhan o'r safle i sicrhau y gellid cyrraedd yr uned famolaeth yn hawdd	Bydwraig Profiad y Claf Rheolwr y Safle	Chwefror 2026 Chwefror 2026
5.	Roedd rhywfaint o'r adborth yn nodi nad oeddent bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg	Sicrhau y rhoddir polisiâu cydraddoldeb a hyfforddiant ar waith yn ymarferol ac yn gyson er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r un person sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn wynebu unrhyw wahaniaethu	Teg Yn canolbwyntio ar yr unigolyn	Sicrhau bod y staff yn cwblhau modiwl dysgu Cofnodion Staff Electronig Cymru gyfan ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Mae adroddiad ansawdd blynyddol BIPCTM sy'n hyrwyddo cydraddoldeb wedi cael ei rannu â phob aelod o'r staff.	Penaethiaid Bydwreigiaeth Penaethiaid Bydwreigiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
6.	Nid oedd y broses BSOT wedi'i rhoi ar	Rhoi BSOTS ar waith yn llawn, gan gynnwys llinellau	Diogel Effeithiol Amserol	Penodi aelodau o'r staff craidd i weithio yn yr Uned Blaenoriaethau Mamolaeth.	Bydwraig Ymgynghorol - lechyd y boblogaeth a gwella ansawdd	Medi 2025: Cam gweithredu

	waith yn llawn yn yr adran frysbenneu	ffôn dynodedig i roi cyngor, hyfforddiant staff cynhwysfawr, a phrosesau brysbenneu cyson		Aelodau o'r staff i gwblhau hyfforddiant BSOTS. Rhannu gwybodaeth â chleifion er mwyn sicrhau bod menywod a theuluoedd yn gwybod sut a phryd i gysylltu â'r Uned Blaenoriaethau Mamolaeth Casglu data a chwblhau archwiliad clinigol i fonitro cydymffurfiaeth â'r broses BSOT.	Bydwraig Ymgynghorol Bydwraig Ymgynghorol Bydwraig Ymgynghorol	wedi'i gwblhau Tachwedd 2025: Medi 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau Chwefror 2026
7.	Gwelwyd materion â'r ystadau a'r cyfarpar nad oeddent wedi cael eu hatgyweirio yn ystod yr arolygiad	Sicrhau y caiff cyfarpar ei atgyweirio a materion ystadau eu datrys mewn modd amserol	Diogel Effeithlon	Uwchgyfeirio'r ardaloedd y mae angen eu gwella at ADRP	Rheolwyr y Gyfarwyddiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau

				Codi'r materion uwchgyfeirio ymhlith y bwrdd rheoli gweithredol	Rheolwyr y Gyfarwyddiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
				Uwchgyfeirio'r materion drwy gyfarfodydd sicrhau ansawdd mewnol (SWAG)	Rheolwyr y Gyfarwyddiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
8.	Roedd y gofrestr risgiau yn dangos bod problemau o ran ystadau nad oeddent wedi'u datrys yn y theatr a phryderon ynghylch y cymysgedd sgiliau a'r lefelau staffio yn y theatr	Adolygu unrhyw bryderon am ystadau'r theatr nad ydynt wedi'u datrys, lefelau staffio'r theatr a'r cymysgedd sgiliau a mynd i'r afael â nhw	Diogel Effeithlon Effeithiol	Cynnal cyfarfodydd amlddisgyblaethol amdriniaethol er mwyn sicrhau y cyfathrebydd mewn modd amserol ac effeithiol i wella trefniadau rota diogel	Rheolwyr y Gyfarwyddiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
				Cynnal adolygiad o'r gweithlu drwy Birth Rate Plus	Penaethiaid Bydwreigiaeth	Ionawr 2026
				Uwchgyfeiriwyd y materion ystadau drwy gyfarfod y bwrdd rheoli gweithredol	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Hydref 2025: Wedi'i gwblhau

9.	Nid oedd ardaloedd diogel ar gael i storio meddyginiaethau'r cleifion	Adolygu a gwella'r broses ar gyfer storio meddyginiaethau'r cleifion yn ddiogel	Diogel Effeithiol	Archebu loceri y gellir eu cloi ar gyfer pob gwely er mwyn paratoi ar gyfer polisi hunanfeddyginiaethu Cymru Gyfan	Pennaeth Bydwreigiaeth	Medi 2025: cam gweithredu wedi'i gwblhau
10.	Nododd adborth a gafwyd gan y staff lefelau isel o forâl a boddhad	Adolygu themâu sy'n codi mewn adborth gan staff a gweithredu arnynt a rhoi camau gweithredu ar waith i wella boddhad a morâl y staff a'u monitro	Effeithiol Yn canolbwyntio ar yr unigolyn	Sefydlu tîm llesiant yn yr uned i gefnogi digwyddiadau llesiant. Trefnu cyfarfodydd yn yr uned er mwyn rhoi cyfleoedd i'r staff gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau llesiant Cynrychiolwyr lleol Coleg Brenhinol y Bydwagedd i gynnal ymweliadau â'r safle (teithiau llesiant) Hyrwyddo proses recriwtio Coleg Brenhinol y Bydwagedd i gefnogi rolau iechyd a diogelwch yn lleol.	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth/Penaethiaid Bydwreigiaeth Uwch-reolwr Bydwreigiaeth/Penaethiaid Bydwreigiaeth Uwch-reolwr Bydwreigiaeth/Penaethiaid Bydwreigiaeth	Medi 2025: cam gweithredu wedi'i gwblhau Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau

				Diweddarau cynllun arweinyddiaeth a diwylliant yr Uned Famolaeth/Newyddenedigol a'i gyflwyno Tîm Llesiant Cwm Taf Morgannwg i gynnal sesiynau galw heibio/adborth er mwyn rhoi cyfle i'r staff godi/trafod pryderon/meysydd i'w gwella	Penaethiaid Bydwreigiaeth Rheolwr y Gyfarwyddiaeth/Penaethiaid Bydwreigiaeth	wedi'i gwblhau Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau Tachwedd 2025
11.	Roedd yr adborth a gafwyd gan y staff yn nodi y gellid gwella'r cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff	Adolygu, gwerthuso a gwella trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff	Yn canolbwyntio ar yr unigolyn Effeithiol	Creu cylchlythyr mamolaeth/newyddenedigol i'w rannu ar y cyd â chylchlythyr 'MatChat' y staff Cynnal cyfarfodydd yn yr uned	Penaethiaid Bydwreigiaeth a Chyfarwyddwr yr Adran Bydwreigiaeth Penaethiaid Bydwreigiaeth	Hydref 2025: cam gweithredu wedi'i gwblhau Hydref 2025: cam

				Sicrhau y caiff ‘sesiynau briffio 7 munud’ eu rhannu â phob aelod o'r staff Diweddarau templedi'r adolygiad cyflym i sicrhau llesiant y staff a sicrhau bod gan bob IMG swyddog cyswllt Cynnal cyfarfodydd myfyrio i sicrhau y caiff y gwersi a ddysgwyd eu rhannu â'r staff	Bydwraig Arweiniol Sicrhau Ansawdd Bydwraig Arweiniol Sicrhau Ansawdd Bydwraig Arweiniol Sicrhau Ansawdd	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
14.	Roedd pob un o'r Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd i ffwrdd o'r gwaith ar adeg yr arolygiad	Adolygu a blaenoriaethu cynllun er mwyn mynd i'r afael â bylchau o ran Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd i roi cymorth i'r rhai sydd wedi bod yn	Diogel Yn canolbwyntio ar yr unigolyn	Adolygu'r broses o roi Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd ar waith a sicrhau llesiant pob aelod o'r staff sy'n absennol o'r gwaith	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth	Hydref 205: Cam gweithredu wedi'i gwblhau

		gysylltiedig â digwyddiadau		Sicrhau y rhoddir y broses recriwtio ar waith i lenwi'r swyddi gwag	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
15.	Nid oedd lefelau'r Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad yn cyrraedd targed y bwrdd iechyd ar adeg yr arolygiad	Gwellu lefelau'r Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad yn unol â thargedau'r bwrdd iechyd	Effeithiol Effeithlon	Sicrhau bod pob rheolwr llinell wedi cael y cyfle i gwblhau hyfforddiant ac wedi cael canllawiau ar gynnal Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
				Monitro cydymffurfiaeth â'r Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad a'u cyflwyno mewn cyfarfodydd sicrhau ansawdd	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
16.	Dywedodd aelodau o'r staff wrthym nad oeddent wedi cael eu sefydlu wrth ddechrau eu cyflogaeth	Sicrhau bod rhaglen sefydlu ar gael i bob aelod newydd o staff yn yr uned.	Effeithiol Diogel	Sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn cael 'pecyn croeso' fel cyflwyniad i'r uned.	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
				Sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn gweithio	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu

				fel aelod o staff ychwanegol ar ddechrau ei gyflogaeth.		wedi'i gwblhau
				Sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn cyfarfod â'i Gynrychiolydd Clinigol ar gyfer Bydwagedd er mwyn cael ei gyflwyno i'r uned	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
				Sicrhau y caiff cyfathrebiadau clir eu rhannu â'r holl fydwragedd arbenigol i sicrhau bod y tîm yn ymwybodol bod aelodau newydd o staff wedi dechrau yn eu swyddi.	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth	Hydref 2025: Cam gweithredu wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad: